# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(78)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i’r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.24

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Y dystiolaeth sy’n tanategu’r achos dros ad-drefnu’r GIG yng Nghymru.

Dechreuodd yr eitem am 14.33

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Cyflwyno Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.06

### 5. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2011

Dechreuodd yr eitem am 15.27

### 6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Gymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 16.00

## 7. Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012

Dechreuodd yr eitem am 16.39

**NDM5032 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mehefin 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8. Dadl ar Rifedd

Dechreuodd yr eitem am 16.40

**NDM5031 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod rhifedd yn sgil hanfodol;

b) bod angen codi safonau rhifedd ar fyrder gydag ymrwymiad gan bob sector yn y byd addysg i gyflawni'r amcan hwn;

c) bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Rhaglen Rhifedd Genedlaethol i godi'n sylweddol lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd er mwyn cynorthwyo'r sector addysg a dysgwyr i godi safonau rhifedd.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt b) newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:
bod Cymru, o dan asesiad PISA 2009, yn 40fed o blith 67 o wledydd ym maes mathemateg.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu is-bwynt b), a rhoi yn ei le 'bod angen ymateb ar fyrder i'r hen broblem o safonau rhifedd yng Nghymru, nad yw Gweinidogion addysg blaenorol wedi mynd i'r afael â hi, er mwyn codi safonau rhifedd gydag ymrwymiad gan bob sector yn y byd addysg i gyflawni'r amcan hwn'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Yn is-bwynt b), ar ôl 'gydag ymrwymiad gan' dileu “bob”, ac ychwanegu 'Lywodraeth Cymru a phob'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

y gydberthynas sy’n parhau rhwng amddifadedd a'r lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod safonau rhifedd wedi dirywio, ar ôl deuddeg mlynedd ddi-dor o Weinidogion addysg Llafur mewn grym.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y rôl allweddol y gall rhieni a gwarcheidwaid ei chwarae wrth weithio gyda’r sector addysg i wella safonau rhifedd ymysg plant a phobl ifanc Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraethau olynol Cymru i godi safonau rhifedd yng Nghymru yn ddigonol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 7 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod safbwynt Llywodraeth Cymru ei bod yn afrealistig disgwyl gwelliannau sylweddol ym mherfformiad Cymru yn yr asesiadau nesaf gan PISA, yn awgrymu nad ydynt ar frys i wella safonau rhifedd yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 26 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i bennu targedau clir ar gyfer gwelliannau mewn mathemateg yng nghanlyniadau PISA 2012.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r buddsoddiad a ddarparwyd gan y grant amddifadedd disgyblion, a fydd yn helpu i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 7 | 13 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r grant amddifadedd disgyblion yn ei flwyddyn ganlynol er mwyn parhau i helpu i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | 7 | 39 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 11.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM5031 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:
a) bod rhifedd yn sgil hanfodol;
b) bod Cymru, o dan asesiad PISA 2009, yn 40fed o blith 67 o wledydd ym maes mathemateg;
c) bod angen codi safonau rhifedd ar fyrder gydag ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a phob.sector yn y byd addysg i gyflawni'r amcan hwn;
d) bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Rhaglen Rhifedd Genedlaethol i godi'n sylweddol lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd er mwyn cynorthwyo'r sector addysg a dysgwyr i godi safonau rhifedd;
e) y gydberthynas sy'n parhau rhwng amddifadedd a'r lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd

2. Yn cydnabod y rôl allweddol y gall rhieni a gwarcheidwaid ei chwarae wrth weithio gyda'r sector addysg i wella safonau rhifedd ymysg plant a phobl ifanc Cymru.

3. Yn croesawu'r buddsoddiad a ddarparwyd gan y grant amddifadedd disgyblion, a fydd yn helpu i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
**17.24**
Cafodd y cyfarfod ei ohirio a@i ail-gynnull am 17.26 ar gyfer y Cyfnod Pleidleisio.

### 9. Dadl Fer a ohiriwyd ers 27 Mehefin 2012

Dechreuodd yr eitem am 17.32

**NDM5024 Leanne Wood (Canol De Cymru):** Arafu'r traffig i sicrhau diogelwch ein plant ysgol.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:52

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mercher, 11 Gorffennaf 2012**